OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1866

## Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000

**Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990**

**7.** Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn ac, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn:

(a) adran 2 (ystyr estynedig "gwerthu" etc.);

(b) adran 3 (rhagdybiau bod bwyd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl);

(c) adran 20 (Troseddau sy'n deillio o fai person arall);

(ch) adran 21 (amddiffyniad ar sail diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adran 8, 14 neu 15 o'r Ddeddf;

(d) adran 22 (amddiffyniad ar sail cyhoeddi yng nghwrs busnes);

(dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(e) adran 33 (rhwystro etc. swyddogion);

(f) adran 35(1) i (3) (cosbi troseddau) i'r graddau ei fod yn ymwneud â throseddau o dan adran 33(1) a (2) fel y cymhwysir hwy gan baragraff (e) uchod;

(ff) adran 36 (troseddau gan gyrff corfforaethol); a

(g) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).